



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Cynllun Cyhoeddi – Canllaw i Wybodaeth Comisiynydd y Gymraeg



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion Cyswllt:

- Ffôn: 0845 6033 221
- E-bost: [post@comisiynyddygyymraeg.org](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.org)
- Gwefan: [comisiynyddygyymraeg.org](http://comisiynyddygyymraeg.org)

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5–7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

---

# Cynnwys

---

1	Gwybodaeth gefndir	1
2	Pwrpas Cynllun Cyhoeddi	1
3	Comisiynydd y Gymraeg	1
4	Gwybodaeth a gyhoeddir	2
5	Sut ydym yn darparu gwybodaeth, a'r costau a allai fod yn gysylltiedig	4
6	Gwybodaeth Eithriedig	5
7	Hawlfraint a Chynllun Cyhoeddi Comisiynydd y Gymraeg	6
8	Cynllun Cyhoeddi	6
9	Cwynion ac apeliadau	6
10	Y Comisiynydd Gwybodaeth	7
11	Manylion Cyswllt	7

# 1 Gwybodaeth gefndir

- 1.1 Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cynhyrchu'r Cynllun hwn i gyd-fynd â'r Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol a ddatblygwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth dan Adran 19 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Deddf Rhyddid Gwybodaeth). Mae'r Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol ynghyd â'r Cynllun hwn ar gael ar wefan Comisiynydd y Gymraeg: [comisiynyddygyymraeg.org](http://comisiynyddygyymraeg.org)

## 2 Pwrpas Cynllun Cyhoeddi

- 2.1 Dan adran 19 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, rhaid i Gomisiynydd y Gymraeg, fel pob awdurdod cyhoeddus arall, gynhyrchu a chynnal cynllun cyhoeddi. Rhaid i'r cynllun hwn nodi pa wybodaeth y mae Comisiynydd y Gymraeg yn ei ddarparu, pryd y bydd yn gwneud hynny ac a fydd y wybodaeth hon ar gael yn ddi-dâl ai peidio.
- 2.2 Mae'r cynllun yn nodi'r wybodaeth bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ei ddarparu ar eich cyfer, heb fod angen i chi wneud cais penodol. Bwriad cynllun cyhoeddi yw sicrhau bod cymaint o wybodaeth ac sy'n bosibl ar gael yn hawdd i'r cyhoedd gyda chyn lleied o anghyfleustra a chost ag sy'n bosibl. Yn ogystal, anelir at hybu diwylliant agored ymysg awdurdodau cyhoeddus ynghylch sut maent yn cyflawni eu dyletswyddau, yn gwneud penderfyniadau, ac yn gwario arian cyhoeddus.

## 3 Comisiynydd y Gymraeg

- 3.1 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gorfforaeth undyn. Fe'i sefydlwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cafodd y Mesur gydsyniad brenhinol ar 9 Chwefror 2011. Caiff Comisiynydd y Gymraeg ei ariannu gan Weinidogion Cymru.
- 3.2 Prif nod Comisiynydd y Gymraeg wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.
- 3.3 Caiff y Comisiynydd wneud unrhyw beth y mae'n ei ystyried yn briodol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg, hwyluso defnyddio'r Gymraeg a gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.4 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn annibynnol.

## 4 Gwybodaeth a gyhoeddir

4.1 Mae'r wybodaeth wedi ei grwpio yn ôl y dosbarthiadau a restrir yn y Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol. Anelir at gyhoeddi y rhan helaeth o'r wybodaeth sy'n angenrheidiol ar ein gwefan gorfforaethol.

### 4.2 Pwy ydyn ni a beth a wnawn

*Gwybodaeth drefniadol, lleoliadau a chytundebau, rheolaeth gyfansoddiadol a chyfreithiol.*

4.2.1 Cewch hyd i wybodaeth am rôl a chyfrifoldebau Comisiynydd y Gymraeg, ei strwythur sefydliadol a sail ddeddfwriaethol ei weithgareddau yn adran 'Comisiynydd' y wefan gorfforaethol.

4.2.2 Cewch fanylion pellach ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn yr adrannau 'Dyletswyddau Iaith' a 'Fy Hawliau' ar y wefan. Mae gwybodaeth bellach am Ymholiad Iechyd Comisiynydd y Gymraeg ac Ymchwiliadau ac Adroddiadau Safonau ar y wefan.

4.2.3 Mae manylion cyswllt a lleoliad Comisiynydd y Gymraeg yn adran 'Cysylltu' y wefan.

### 4.3 Beth a wariwn a sut y gwariwn ef

*Gwybodaeth ariannol yn ymwneud ag incwm a gwariant amcanol a go iawn, tendro, caffael a chytundebau.*

4.3.1 Bydd Adroddiadau Ariannol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2015 yn ymddangos ar y wefan ym mis Awst 2015. Gellir cael copi papur o'r cyfrifon llawn ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014 ar gais drwy gysylltu â [post@comisiynyddygyymraeg.org](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.org).

4.3.2 Mae copïau o amcangyfrifon ariannol blynyddol Comisiynydd y Gymraeg yn ymddangos ar y wefan o dan adran 'Comisiynydd' 'Polisiâu / Dogfennau Corfforaethol'.

4.3.3 Mae copi o'r llawlyfr treuliau; dogfen 'Gweithdrefnau Prynu Nwyddau a Gwasanaethau Comisiynydd y Gymraeg'; ynghyd â manylion unrhyw gontractau a ddyfarnwyd ar gael drwy gais drwy gysylltu â [post@comisiynyddygyymraeg.org](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.org)

4.3.4 Mae rhestr o'r tendrau sydd yn agored i gyflenwyr, yn ogystal â thendrau a fydd yn cael eu hysbysebu yn y dyfodol agos, ar gael drwy ddilyn y ddolen 'Tendrau' ar waelod tudalen flaen y wefan.

4.3.5 Mae manylion ar letygarwch a threuliau a hawliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn cael eu diweddarau yn chwarterol ac ar gael drwy ddilyn y ddolen 'Comisiynydd' 'Treuliau a Lletygarwch'

#### 4.4 Beth yw ein blaenoriaethau a sut rydym yn perfformio

*Gwybodaeth am strategaethau a pherfformiad, cynlluniau, asesiadau, arolygon ac adolygiadau.*

- 4.4.1 Mae blaenoriaethau strategol Comisiynydd y Gymraeg wedi eu hamlinellu yn y Cynllun Strategol ar gyfer 2015-17, ceir gopi o'r Cynllun Strategol yn adran 'Cyhoeddiadau' 'Polisiâu/Dogfennau Corfforaethol' y wefan.
- 4.4.2 Mae copi o Adroddiad Blynyddol 2013-14 Comisiynydd y Gymraeg ar gael yn adran 'Cyhoeddiadau' y wefan.

#### 4.5 Sut y gwnawn benderfyniadau

*Cynigion polisi a phenderfyniadau. Prosesau'n ymwneud â gwneud penderfyniadau, meini prawf a gweithdrefnau mewnol, ymgynghoriadau.*

- 4.5.1 Mae copi o Ddatganiad Llywodraethiant Comisiynydd y Gymraeg ar gael yn adran 'Comisiynydd', 'Polisiâu / Dogfennau Corfforaethol' y wefan.
- 4.5.2 Mae copi o Gylch Gwaith Tîm Rheoli'r Comisiynydd ar gael yn adran 'Comisiynydd', 'Polisiâu / Dogfennau Corfforaethol' y wefan.
- 4.5.3 Mae copi o Gylch Gorchwyl Pwyllgor Archwilio a Risg Comisiynydd y Gymraeg ar gael yn adran 'Comisiynydd' y wefan.
- 4.5.4 Mae copi o Gylch Gorchwyl Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg ar gael yn adran 'Comisiynydd' y wefan.

#### 4.6 Ein Polisiâu a'n gweithdrefnau

*Protocolau ysgrifenedig cyfredol ar gyfer cyflawni ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau.*

- 4.6.1 Ceir copi o'r Cynllun Cyhoeddi, y Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol ar wefan y Comisiynydd yn yr adran 'Comisiynydd' 'Polisiâu / Dogfennau Corfforaethol' Ceir cyfarwyddiadau ar sut i wneud cais am wybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn adran 6 y Cynllun hwn.
- 4.6.2 Fe gyhoeddir manylion swyddi gyda'r Comisiynydd ar y dudalen 'Swyddi' ar droedyn y wefan.
- 4.6.3 Cewch hyd i Drefn Gwynion y Comisiynydd a Ffurflen Cwyno drwy glicio ar fotwm 'Cwyno' ar hafan y wefan.
- 4.6.4 Cewch hyd i Bolisi Gorfodi'r Comisiynydd yn yr adran 'Dyletswyddau Iaith' 'Gorfodi Safonau' 'Polisi Gorfodi'.
- 4.6.5 Os ydych am wneud cwyn ynghylch camweinyddu neu ddiffyg gwasanaeth gan

swyddogion Comisiynydd y Gymraeg, gellir cael gwybodaeth bellach ar y wefan yn yr adran “Comisiynydd y Gymraeg” neu drwy gysylltu â [post@comisiynyddygymraeg.org](mailto:post@comisiynyddygymraeg.org).

#### 4.7 Rhestrau a Chofrestrau

*Gwybodaeth a gedwir mewn cofrestrau a fynnir gan y gyfraith a rhestrau eraill yn ymwneud â swyddogaethau'r awdurdod.*

- 4.7.1 Ceir copi electronig o gofnod buddiannau Comisiynydd y Gymraeg a'r Dirprwy Gomisiynydd ar y wefan o dan yr adran 'Comisiynydd.' Ceir copi electronig o'r Cofnod Rhoddion ar gais drwy gysylltu â [post@comisiynyddygymraeg.org](mailto:post@comisiynyddygymraeg.org).

#### 4.8 Y Gwasanaethau a Gynigiwn

*Cyngor a chanllawiau, llyfrynau a thafenni, gweithrediadau a datganiadau i'r wasg. Disgrifiad o'r gwasanaethau a gynigir.*

- 4.8.1 Mae manylion yr holl wasanaethau a gynigir gan Gomisiynydd y Gymraeg i'w darganfod ar wefan Comisiynydd y Gymraeg.
- 4.8.2 Cewch hyd i amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys taflenni a llyfrynau gwybodaeth a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y wefan yn yr adran 'Cyhoeddiadau.'
- 4.8.3 Bydd dogfennau papur yn cael eu cyhoeddi hefyd. Mae dogfennau cyngor ar gael ar gyfer sefydliadau cyhoeddus, cwmnïau preifat a sefydliadau trydydd sector yn yr adran 'Cyhoeddiadau.'
- 4.8.4 Ceir cyngor pellach ar gyfer cwmnïau preifat a sefydliadau trydydd sector ar is-wefan Hybu Comisiynydd y Gymraeg.
- 4.8.5
- 4.8.6 Gallwch weld datganiadau newyddion Comisiynydd y Gymraeg trwy ddilyn y ddolen 'Newyddion'.

## 5 Sut ydym yn darparu gwybodaeth, a'r costau a allai fod yn gysylltiedig

### Ar ein gwefan

- 5.1 Pan fo gwybodaeth neu gyhoeddiadau ar gael ar wefan Comisiynydd y Gymraeg, gallwch ei hargraffu eich hun heb dalu unrhyw ffi i'r Comisiynydd (ond dylech nodi'r cyfarwyddiadau isod ynghylch hawlfraint).

### Drwy'r post neu e-bost

- 5.2 Pan nad yw'r wybodaeth sydd wedi'i nodi yn y Cynllun ar gael ar ein gwefan, neu os oes well gennych dderbyn copi caled o'r wybodaeth, gallwn anfon y wybodaeth atoch drwy'r post neu dros e-bost. Fel arfer, bydd y wybodaeth ar gael yn hwylus, ac yn yr achos hwnnw byddwn yn anfon y wybodaeth yn syth. Os nad yw'r wybodaeth ar gael yn syth am ryw reswm neu'i gilydd, byddwn yn anfon ateb interim atoch, o fewn 5 diwrnod gwaith i'ch cais, yn egluro'r amgylchiadau, ac wedyn yn anfon y wybodaeth atoch o fewn 20 diwrnod gwaith i dderbyn eich cais gwreiddiol. Oni nodir yn wahanol, mae cyhoeddiadau a gyhoeddir yn uniongyrchol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar gael yn rhad ac am ddim. (Nodwch, os ydych yn gofyn i ni gynhyrchu sawl copi o'r un ddogfen, mae'n bosib y byddwn yn codi ffi llungopïo, ond byddwn bob amser yn eich hysbysu o flaen llaw am unrhyw ffi posibl).

## Fformat Cyhoeddiadau yn y Cynllun Cyhoeddi

- 5.3 Mae'r mwyafrif helaeth o'r wybodaeth a gyhoeddir gan Gomisiynydd y Gymraeg ar gael ar ffurf 'pdf' ar wefan y Comisiynydd, oni nodir yn wahanol. Mae'r mwyafrif o ddogfennau a gynhyrchir gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ddwyieithog, yn y Gymraeg a Saesneg.
- 5.4 Os yw gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi mewn fformat electronig yn unig, gallwch gysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg i gael copi caled o'r ddogfennaeth. O bryd i'w gilydd mae Comisiynydd y Gymraeg yn cynhyrchu gwybodaeth mewn fformat eraill. Gallwn drefnu i ddarparu gwybodaeth mewn fformat gwahanol (e.e. print bras neu sain) ar gais.

## 6 Gwybodaeth Eithriedig

- 6.1 Nid yw ymrwymiad Comisiynydd y Gymraeg i gyhoeddi gwybodaeth yn cynnwys unrhyw wybodaeth y mae'n briodol ei dal yn ôl dan yr eithriadau a nodir yng Nghod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar ganiatáu i'r Cyhoedd weld gwybodaeth. Lle bo eithriadau mewn dosbarthiadau unigol, y prif resymau dros hynny yw diogelu buddiannau masnachol a gwybodaeth bersonol dan Ddeddf Diogelu Data 1998.
- 6.2 Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi'r hawl cyffredinol i bobl weld gwybodaeth sy'n cael ei gadw gan gyrff cyhoeddus, oni bai fod un o'r eithriadau sydd wedi'u hamlinellu yn y ddeddfwriaeth yn gymwys. Mae dyletswydd ar Gomisiynydd y Gymraeg i ddarparu'r wybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith i dderbyn cais ysgrifenedig am wybodaeth. Os ydym yn barnu fod un neu fwy o'r eithriadau yn gymwys i'r wybodaeth, fe allwn gadw'r wybodaeth yn ôl a'ch hysbysu am ein rhesymau dros wneud hynny.
- 6.3 Mae Adran 22 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn disgwyl i'r Comisiynydd drin unrhyw wybodaeth y mae'n ei chael wrth arfer ei swyddogaethau yn gyfrinachol. Ni fydd y fath wybodaeth yn cael ei rhannu gydag unrhyw un arall oni bai yr awdurdodir hynny gan Adran 22. Fodd bynnag, gall fod angen i'r Comisiynydd ddatgelu'r fath wybodaeth i eraill mewn amgylchiadau eithriadol. Nid yw Adran 22 yn effeithio o gwbl ar ddyletswyddau'r Comisiynydd o dan y Ddeddf Diogelu Data 1998 na'r gyfraith ar



gyfrinachedd. Am fwy o wybodaeth ar Adran 22, cysylltwch â [post@comisiynyddygybraeg.org](mailto:post@comisiynyddygybraeg.org). Os ydych am wneud cais am wybodaeth sydd ddim wedi'i gynnwys yn y Cynllun Cyhoeddi, dylech wneud hynny'n ysgrifenedig, drwy gysylltu â [post@comisiynyddygybraeg.org](mailto:post@comisiynyddygybraeg.org).

## 7 Hawlfraint a Chynllun Cyhoeddi Comisiynydd y Gymraeg

- 7.1 Diogelir y wybodaeth sydd ar gael trwy'r cynllun hwn gan hawlfraint oni nodir i'r gwrthwyneb. Yn gyffredinol, gellir atgynhyrchu deunydd at ddefnydd personol neu fewnol heb orfod cael caniatâd ffurfiol ac yn ddi-dâl. Ni chaniateir atgynhyrchu deunydd ar gyfer ei werthu nac at ddibenion masnachol eraill. Os ydych yn copïo unrhyw wybodaeth hawlfraint sydd ar gael trwy'r cynllun hwn, neu ei dosbarthu i eraill neu ei hailgyhoeddi, rhaid i chi nodi ffynhonnell y deunydd a chydabod ei statws hawlfraint.
- 7.2 Nid yw'r caniatâd i atgynhyrchu deunydd a ddiogelir gan Hawlfraint Comisiynydd y Gymraeg yn ymestyn i unrhyw ddeunydd ar y wefan a nodir fel deunydd hawlfraint trydydd parti. Mae'n rhaid cael yr awdurdod i atgynhyrchu deunydd o'r fath gan y deiliaid hawlfraint dan sylw. Os ydych am holi am ddeunydd arall, neu os ydych yn ansicr, gellir cael gwybodaeth bellach a nodiadau cyfarwyddyd am hawlfraint a chyhoeddi oddi wrth yr Archif Genedlaethol.
  - 020 8876 3444 (Nodwch mai rhif ymholiadau cyffredinol yr Archif Genedlaethol yw hwn)

## 8 Cynllun Cyhoeddi

- 8.1 Dymunwn i'n Cynllun Cyhoeddi fodloni'ch anghenion chi. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwybodaeth arall y gellid ei chynnwys yn y dyfodol - ynghyd ag awgrymiadau ynghylch sut y gellid sicrhau bod y wybodaeth gyhoeddedig ar gael yn fwy hwylus i chi.
- 8.2 Dylid anfon cwestiynau neu sylwadau ynghylch y Cynllun hwn drwy gysylltu â [post@comisiynyddygybraeg.org](mailto:post@comisiynyddygybraeg.org)

## 9 Cwynion ac apeliadau

- 9.1 Os nad ydych yn fodlon â'r ffordd yr ydym wedi delio â'ch cais am wybodaeth, mae gennych hawl i apelio. Yn wir, os oes gennych gwyn ynghylch unrhyw fater y mae

Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol amdano, hoffem gael gwybod. Cysylltwch â Chyfarwyddwr Hybu, Cyfathrebu a Gweinyddu.

## 10 Y Comisiynydd Gwybodaeth

10.1 Y Comisiynydd Gwybodaeth sy'n goruchwyllo'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data. Os oes unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â'r eitemau hyn yr hoffech eu codi gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth, mae'r manylion cyswllt fel a ganlyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru  
2il Lawr  
Tŷ Churchill  
Ffordd Churchill  
Caerdydd  
CF10 2HH

029 2067 8400

[cymru@ico.gsi.gov.uk](mailto:cymru@ico.gsi.gov.uk)

## 11 Manylion Cyswllt

Cyfarwyddiaeth Hybu, Cyfathrebu a Gweinyddu  
Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd  
CF10 1AT

0845 6033 221

[post@comisiynyddygymraeg.org](mailto:post@comisiynyddygymraeg.org)

[comisiynyddygymraeg.org](http://comisiynyddygymraeg.org)